

ADDYSG, CYMRU

2009 Rhif [25]

SAFONAU STATWS ATHRO CYMWYSEDIG CYMRU 2009

Rhagymadrodd

Mae'r ddogfen hon yn pennu at ddibenion rheoliad 3(1) o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004¹ y safonau sy'n ofynnol gan bersonau sydd am ddod yn athrawon cymwysedig ac sy'n cael eu hasesu ar 1 Medi 2009 neu wedi hynny.

Dehongli

Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y ddogfen hon:

ystyr "cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon" ("cwrs HCA") ("*ITT course*") yw cwrs o hyfforddiant athrawon cychwynnol mewn sefydliad achrededig o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004;

ystyr "y Safonau Statws Athro Cymwysedig" ("y Safonau SAC") ("*the QTS Standards*") yw'r safonau penodedig sy'n ofynnol gan bersonau sydd am ddod yn athrawon cymwysedig at ddibenion Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004; ac

ystyr "Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006" ("Safonau SAC 2006") ("*the 2006 QTS Standards*") yw'r safonau sy'n ofynnol gan bersonau sydd am ddod yn athrawon cymwysedig a bennir yn Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006².

Crynodeb

1. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodol a Chofrestru) (Cymru) 2004³ dim ond athrawon cymwysedig (h.y. y rheini sydd â Statws Athro Cymwysedig ("SAC")) a phobl eraill mewn rhai amgylchiadau sy'n cael gwneud gwaith penodol - hynny yw, addysgu - mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu mewn ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru.
2. Gosodir y gofynion ar gyfer SAC yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau Cymwysterau"). Mae rheoliad 5 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cymwysterau yn pennu'r gofynion sydd i'w bodloni gan bersonau cyn y gallant ddod yn athrawon cymwysedig.
3. Un o'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni yw bod yn rhaid asesu personau sydd wedi dilyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) neu ddilyn rhaglenni

¹ O.S. 2004/1729, fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Addysg (Diwygiadau i Reoliadau ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2811 (Cy.238)) a'r Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/215).

² Is-ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006 Rhif 49.

³ O.S. 2004/1744.

awdurdodedig o hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yng Nghymru yn erbyn "safonau penodedig". Dyma'r safonau sy'n gymwys ar adeg yr asesiad a bennir gan Weinidogion Cymru fel y safonau sy'n ofynnol gan bersonau sydd am fod yn athrawon cymwysedig.

4. Adwaenir y "safonau penodedig" fel y Safonau SAC ac fe'u gosodir yn y ddogfen hon. Maent yn disodli Safonau SAC 2006 ar sail orfodol ar gyfer pob hyfforddai ar bob cwrs neu raglen HCA sy'n dechrau ar 1 Medi 2009 neu wedi hynny, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a osodir ym mharagraff 17 isod.
5. Mae yna ddau brif lwybr yn gweithredu yng Nghymru sy'n galluogi pobl i fodloni'r gofynion angenrheidiol i ddod yn athrawon cymwysedig: drwy'r llwybr cyntaf gallant gwblhau cwrs HCA neu drwy'r ail lwybr gallant ddilyn hyfforddiant ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth tra maent yn gweithio mewn ysgol.
6. Ar gyfer y llwybr cyntaf, cydnabyddir personau yn athrawon cymwysedig yng Nghymru cyhyd â'u bod:
 - (a) yn dal gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu radd neu gymhwyster arall cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor;
 - (b) wedi cwblhau cwrs HCA yn llwyddiannus yng Nghymru; ac
 - (c) wedi dilyn unrhyw gyfnod o brofiad addysgu ymarferol at ddibenion cwrs HCA a gychwynnodd ar 1 Medi 2008 neu wedi hynny yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn ysgol, ysgol annibynnol neu sefydliad arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru; ac
 - (ch) wedi eu hasesu gan sefydliad achrededig eu bod yn bodloni'r Safonau SAC.
7. O dan reoliad 7 o'r Rheoliadau Cymwysterau, sefydliad achrededig yw sefydliad a achredwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") fel darparydd cyrsiau neu raglenni HCA. Dim ond sefydliad sy'n bodloni meini prawf a bennir gan Weinidogion Cymru y caiff CCAUC ei achredu'n ddarparydd HCA.
8. Mae'n ofynnol i bob darparydd cwrs HCA sicrhau achrediad gan CCAUC er mwyn cynnal cyrsiau HCA sy'n galluogi eu myfyrwyr i ennill SAC. Er mwyn bod yn achrededig gan CCAUC, rhaid i ddarparydd (ymhlith pethau eraill) gynnal cyrsiau HCA sy'n bodloni'r gofynion a bennir gan Weinidogion Cymru ac sy'n tywys myfyrwyr i ennill y Safonau SAC. I'r darparydd y dyfernir yr achrediad ac mae'n cwmpasu pob cwrs HCA a gynhelir gan y darparydd hwnnw.
9. Ar gyfer yr ail lwybr, cydnabyddir personau sy'n dilyn HCA ar sail cyflogaeth yng Nghymru yn athrawon cymwysedig cyhyd â'u bod:
 - (a) wedi cwblhau'n llwyddiannus gyfnod o hyfforddiant ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth neu wedi bodloni gofynion y cynllun mewn modd arall;
 - (b) wedi eu hasesu gan berson cymwys eu bod yn bodloni'r Safonau SAC; ac
 - (c) cyhyd â bod argymhelliad wedi'i gyflwyno gan y corff argymell neu ar ei ran i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC)

y dylid eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig. (Y "corff argymhell" yw'r corff sy'n trefnu'r hyfforddiant a roddir i'r personau a enwir yn yr argymhelliad neu'r ysgol neu'r sefydliad arall lle cafodd y cyfryw bersonau eu cyflogi, neu gorff sy'n gweithredu ar ran yr ysgol honno neu'r sefydliad hwnnw.)

10. Nid yw darparu HCA drwy gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth (ar raglenni megis y Rhaglen Athrawon Graddedig) Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddarostyngedig i achrediad CCAUC, gan gynnwys y gofynion ar gyfer cyrsiau HCA. Mae gan y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ei ofynion penodol ei hun ar gyfer darparu hyfforddiant o dan y cynllun.
11. Ar gyfer y ddau lwybr, mae'n rhaid i'r rheini sydd am gael eu cydnabod yn athrawon cymwysedig fod wedi'u hasesu eu bod yn bodloni'r "safonau penodedig".

Trosolwg o'r Safonau SAC

12. Datganiadau canlyniadau yw'r Safonau SAC sy'n gosod yr hyn y mae'n rhaid i hyfforddeion ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ddiwedd cwrs HCA neu raglen ar sail cyflogaeth i ennill SAC. Trefnir y Safonau SAC mewn tair adran cyd-gysylltiedig sy'n disgrifio'r meini prawf ar gyfer ennill SAC:

S1: Gwerthoedd ac arferion proffesiynol: mae'r safonau hyn yn amlinellu'r agweddau a'r ymrwymiad a ddisgwylir gan unrhyw un sy'n cymhwyso i fod yn athro ac maent yn deillio o god proffesiynol 'Datganiad Gwerthoedd ac Arferion Proffesiynol' Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. (Mae'r Datganiad yn ddogfen sy'n gosod y safonau ymddygiad ac arferion proffesiynol a ddisgwylir gan athrawon sydd wedi'u cofrestru gyda CACC. Gellir gweld y ddogfen yn www.gtcw.org.uk.)

S2: Gwybodaeth a dealltwriaeth: mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon sydd newydd gymhwyso fod yn hyderus ac yn awdurdodol yn y pynciau y maent yn eu haddysgu ac i fod â dealltwriaeth glir o ba gynnydd a ddisgwylir gan bob dysgwr ac o ba bethau y dylai athrawon ddisgwyl iddynt eu cyflawni.

S3: Addysgu: mae'r safonau hyn yn ymwneud â sgiliau cynllunio, monitro ac asesu, ac addysgu a rheoli dosbarth. Fe'u hategir gan y gwerthoedd a'r wybodaeth a gwmpesir yn y ddwy adran gyntaf.

13. Gosodir y Safonau SAC yn atodiad A i'r ddogfen hon.

Cymhwyso

14. Mae'r Safonau SAC yn gymwys i bawb sy'n dilyn cyrsiau neu raglenni HCA o dan y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, pa lwybr bynnag a gymerant. Maent yn caniatáu rhyddid i ddarparwyr wrth benderfynu sut y byddant yn trefnu eu hyfforddiant ac yn ymateb i anghenion hyfforddeion unigol. Nid ydynt yn gosod cwricwlwm, nac yn pennu sut y dylid trefnu na chynnal hyfforddiant.
15. Set drwyadl o ddisgwyliadau yw'r Safonau SAC ac maent yn gosod isafswm y gofynion cyfreithiol. Fe ddichon y bydd rhai hyfforddwyr athrawon cynradd yn dewis ychwanegu at yr isafswm hwn drwy gynnig arbenigedd mewn pwnc neu gyfnod. Fe ddichon y bydd rhai hyfforddwyr athrawon uwchradd yn dewis darparu

hyfforddiant ychwanegol sy'n datblygu gwybodaeth a sgiliau athrawon dan hyfforddiant, er enghraifft drwy gynnig maes arbenigol o astudiaeth.

Amseru a Dyddiad Cychwyn

16. Bydd y Safonau SAC a bennir yn y ddogfen hon yn gymwys ar sail orfodol i bob hyfforddai ar bob cwrs HCA neu ar raglenni ar sail cyflogaeth sy'n dechrau ar 1 Medi 2009 neu wedi hynny, yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a ddisgrifir ym mharagraff 17. Mae Safonau SAC 2006 yn peidio â chael eu heffaith ar 1 Medi 2009, yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a ddisgrifir ym mharagraff 17.
17. Caniateir i Safonau SAC 2006 barhau i fod yn gymwys ar ôl 1 Medi 2009 i asesiad y rheini sydd am ddod yn athrawon cymwysedig yn yr achosion canlynol:
 - (a) y rheini sydd ar flwyddyn olaf cwrs is-raddedig llawnamser neu ran amser HCA sy'n arwain at SAC ac sy'n dechrau wedi 1 Medi 2009;
 - (b) y rheini sydd ar gyrsiau ôl-raddedig rhan amser HCA sy'n dechrau cyn 1 Medi 2009;
 - (c) yr hyfforddeion hynny yr oedd eu cyrsiau HCA i fod i ddod i ben cyn 1 Medi 2009 ond a gafodd eu hymestyn, oherwydd:
 - (i) methu a'r angen i ail wneud un agwedd o'r hyfforddiant;
 - (ii) newid o hyfforddiant llawnamser i hyfforddiant rhan amser;
 - (iii) penderfyniadau gan y darparrydd HCA i ganiatáu i hyfforddeion gwblhau unrhyw agwedd o'r rhaglen ar ddyddiad diweddarach (er enghraifft, hyfforddeion sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd o'u hyfforddiant); ac
 - (ch) y rheini sydd ar lwybrau seiliedig ar gyflogaeth o dan gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n dechrau hyfforddi cyn 1 Medi 2009.

Llofnodwyd

Jane Hutt

26/06/2009

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

SAFONAU SAC

S1: Gwerthoedd ac arferion proffesiynol

I ennill SAC, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos eu bod yn deall ac yn cynnal egwyddorion 'Datganiad Gwerthoedd ac Arferion Proffesiynol' Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru drwy ddangos pob un o'r canlynol:

S1.1 Eu bod yn deall gwahanol anghenion dysgu dysgwyr ac yn ymdrechu i ddarparu'r addysg orau posibl i'w galluogi i wneud y gorau o'u potensial, beth bynnag fo'u dyheadau unigol, eu hamodau personol neu eu cefndir diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac ethnig.

S1.2 Eu bod yn dangos y proffesiynoldeb sy'n sicrhau mai ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddeutu yr adeiledir perthynas â dysgwyr ac yn cydnabod y bydd hyn yn help i wneud y gorau o'u potensial i ddysgu.

S1.3 Eu bod yn dangos cyfuniadau o nodweddion proffesiynol sy'n anelu at annog ac ysbrydoli dysgwyr ac yn sicrhau eu datblygiad deallusol a phersonol.

S1.4 Eu bod yn cydnabod pwysigrwydd mynegi gwybodaeth a disgwyliadau yn eglur ac yn sensitif i rieni a gwarcheidwaid ac o feithrin perthynas bositif rhwng y cartref a'r ysgol.

S1.5 Eu bod yn ymdrechu i hyrwyddo lle'r ysgol o fewn y gymuned ehangach.

S1.6 Eu bod yn cydnabod ac yn deall y cyfraniad a wneir ac sy'n angenrheidiol oddi wrth staff cefnogi a phroffesiynolion eraill yn y broses ddysgu.

S1.7 Eu bod yn gallu cyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r proffesiwn a'u bod yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw gwybodaeth broffesiynol, dealltwriaeth a sgiliau wedi'u diweddarau'n barhaus a'u bod yn gallu ystyried eu harferion eu hunain. Eu bod yn cydnabod eu hanghenion eu hunain ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol parhaus.

S1.8 Eu bod yn ymwybodol o'r fframweithiau statudol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau athrawon ac yn gweithio o'u mewn.

S2: Gwybodaeth a dealltwriaeth

I ennill SAC, rhaid i hyfforddeion ddangos y cyfan o'r canlynol:

S2.1 Fod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc neu'r pynciau⁴ y maent wedi'u hyfforddi i addysgu ynddynt. Ar gyfer y rheini sy'n cymhwys o addysgu ar lefelau Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 dylai'r wybodaeth a'r

⁴ Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i drefnu yn saith maes o ddysgu yn hytrach nag yn ôl pwnc. Drwy gydol Atodiad A, mae cyfeiriadau at 'pynciau' yn cynnwys y meysydd dysgu hynny.

ddealltwriaeth hon fod o safon cyfatebol i lefel gradd. O ran cyfnodau penodol, mae hyn yn cynnwys:

(a) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, eu bod:

- (i) yn gwybod ac yn deall y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*;
- (ii) yn gwybod ac yn deall y saith maes o ddysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, sef: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; Datblygiad yn yr Iaith Gymraeg; Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd; Datblygiad Corfforol; Datblygiad Creadigol;
- (iii) yn gwneud defnydd da o unrhyw ganllawiau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu a gymeradwyir ganddi i gefnogi datblygu'r saith maes o ddysgu a'r proffil datblygu plentyn; a
- (iv) yn gwybod ac yn deall y canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ar ddatblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a sgiliau rhifyddol, er enghraifft y rheini a osodir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*;

(b) ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, eu bod:

- (i) yn gwybod a deall y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg, ac ar gyfer y rheini sy'n dilyn cwrs HCA a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg, Cymraeg (fel iaith gyntaf);
- (ii) â dealltwriaeth ddigonol o ystod o waith ar draws y pynciau canlynol:
 - hanes
 - daearyddiaeth
 - technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
 - celf a dylunio
 - dylunio a thechnoleg
 - cerddoriaeth
 - addysg gorfforol
 - Cymraeg fel ail iaith
 - addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
 - addysg grefyddol

i allu eu haddysgu yn yr ystod oed yr hyfforddwyd hwy ar ei gyfer, gyda chyingor gan gydweithiwr profiadol pan fo'i angen;

- (iii) yn gwybod ac yn deall y canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ar ddatblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a sgiliau rhifyddol, er enghraifft y rheini a osodir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*; a
- (iv) os ydynt yn gyfarwydd ag egwyddorion y deunydd cyfarwyddo yn *Codi Safonau: Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*;

(c) ar gyfer Cyfnod Allweddol 3:

- (i) eu bod yn gwybod ac yn deall Rhaglen(ni) Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol a'r canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ar ddatblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a sgiliau rhifyddol, er enghraifft y rheini a osodir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*; a
- (ii) os ydynt yn cymhwyso i addysgu un neu fwy o'r pynciau craidd, eu bod yn gyfarwydd ag egwyddorion *Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3* ac â'r deunydd canllawiau a'i holynodd *Codi Safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd; Codi Safonau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; a Chodi Safonau: Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*.

(ch) ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16:

- (i) os yw eu cyrsiau yn cwmpasu Cyfnod Allweddol 4, eu bod yn gwybod ac yn deall Rhaglen(ni) Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol;
- (ii) eu bod yn ymwybodol o'r cwricwlwm lleol cydweithredol sy'n rhoi dewis a'r cyfle i ganlyn ymlaen yn y cyfnod 14-19 mewn sefyllfaoedd ysgol, coleg a sefyllfaoedd ar sail cyflogaeth;
- (iii) eu bod yn ymwybodol fod Llwybrau Dysgu yn cynnwys rhaglenni o'r cwricwlwm lleol, gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, y Craidd Dysgu a phrofiadau ehangach;
- (iv) eu bod yn gwybod ac yn deall y canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ar ddatblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a sgiliau rhifyddol, er enghraifft y rheini a osodir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*;
- (v) eu bod yn gyfarwydd â'r Fframweithiau Cymwysterau Cenedlaethol;
- (vi) eu bod yn gwybod am y cynnydd o fewn eu pynciau eu hunain ac allan ohonynt a'r ystod o gymwysterau y mae eu pwnc hwy yn cyfrannu tuag atynt; a
- (vii) eu bod yn deall sut y cyfunir cyrsiau yng nghwricwla dysgwyr.

S2.2 Eu bod yn gwybod ac yn deall amcanion a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol; yn benodol:

- (i) eu bod yn gwybod ac yn deall y gofynion a'r hawliau a bennir yn y datganiad *Cynnwys Pob Dysgwr* sy'n ymddangos ar ddechrau pob trefn pwnc a fframwaith yn y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- (ii) eu bod yn gwybod ac yn deall y gwerthoedd, yr amcanion a'r dibenion a'r gofynion addysgu cyffredinol a osodir yn *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu - gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig, y Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru a'r Sgiliau ar draws y cwricwlwm*;
- (iii) eu bod yn deall o ran yr hyn sy'n berthnasol i'r ystod oedran y maent wedi cael eu hyfforddi i'w addysgu, yng Nghymru, y dylai dysgwyr 7-14 oed gael cyfleoedd, lle bo hynny'n briodol, i ddatblygu a chymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol hanesyddol ac ieithyddol Cymru (y Cwricwlwm Cymreig) ac y dylai dysgwyr 14-19 oed gael cyfleoedd i ymgysylltu'n weithredol mewn dealltwriaeth o'r

agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd yn ei gyfarwydd (*Cymru, Ewrop a'r Byd*);

- (iv) o ran yr hyn sy'n berthnasol i'r ystod oedran y maent wedi cael eu hyfforddi i'w addysgu eu bod yn gyfarwydd â'r *Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru, Gyrfaoedd a byd gwaith: fframwaith ar gyfer dysgwyr 11 i 19 oed yng Nghymru* a'r maes llafur cytun lleol ar gyfer addysg grefyddol;
- (v) eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

S2.3 Eu bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau, y cwricwla nodweddiadol a'r trefniadau addysgu yn y Cyfnodau Allweddol neu'r cyfnodau cyn ac ar ôl y rheini y'u hyfforddwyd i'w haddysgu.

S2.4 Eu bod yn deall sut y gall datblygiad corfforol, deallusol, ieithyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol dysgwyr effeithio ar eu dysgu.

S2.5 Eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio TGCh yn effeithiol, i ddysgu eu pwnc ac i gefnogi eu rôl broffesiynol ehangach.

S2.6 Eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan *God Ymarfer AAA Cymru* ac yn gwybod sut i geisio cyngor gan arbenigwyr ar fathau llai cyffredin o anghenion addysgol arbennig.

S2.7 Eu bod yn gwybod am ystod o strategaethau i hybu ymddygiad da ac i sefydlu amgylchedd dysgu ag iddo bwrpas.

S3: Addysgu

S3.1 Cynllunio, disgwyliadau a thargedau

I ennill SAC, rhaid i hyfforddeion ddangos y cyfan o'r canlynol:

S3.1.1 Eu bod yn gosod amcanion addysgu a dysgu ymestynnol sy'n berthnasol i bob dysgwr yn eu dosbarthiadau. Maent yn seilio'r rhain ar eu gwybodaeth:

- (a) o'r dysgwyr;
- (b) tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt, yn y gorffennol ac yn gyfredol;
- (c) o'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddysgwyr o'r ystod oed perthnasol; ac
- (ch) ystod a chynnwys gwaith sy'n berthnasol i ddysgwyr yn yr ystod oed hwnnw.

S3.1.2 Eu bod yn defnyddio'r amcanion addysgu a dysgu hyn i gynllunio gwersi, a dilyniannau o wersi, gan ddangos sut y byddant yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr. Eu bod yn rhoi ystyriaeth i anghenion amrywiol dysgwyr ac yn eu cefnogi fel y gall pob un a addysgir ganddynt wneud cynnydd sylweddol.

S3.1.3 Eu bod yn dewis ac yn paratoi adnoddau, ac yn cynllunio ar gyfer eu trefnu'n ddiogel ac yn effeithiol, gan roi ystyriaeth i ddiddordebau dysgwyr, eu hiaith a'u cefndiroedd diwylliannol, gyda chymorth staff cefnogi pan fo hynny'n briodol.

S3.1.4 Eu bod yn cymryd rhan mewn timoedd addysgu, ac yn cyfrannu tuag atynt, yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r ysgol. Pan fo'n gymwys, eu bod yn cynllunio ar gyfer lleoli oedolion ychwanegol sy'n cefnogi dysgu mewn plant a phobl ifanc.

S3.1.5 Fel sy'n berthnasol i'r ystod oed y maent wedi eu hyfforddi i'w addysgu, eu bod yn gallu cynllunio cyfleoedd i'r rheini y maent yn eu haddysgu i ddysgu mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol, megis ymweliadau ysgol, amgueddfeydd, theatrau, gwaith maes a lleoliadau ar sail cyflogaeth, gyda chymorth eraill o'r staff pan fo hynny'n briodol.

S3.2 *Monitro ac Asesu*

I ennill SAC, rhaid i hyfforddeion ddangos y cyfan o'r canlynol:

S3.2.1 Eu bod yn gwneud defnydd priodol o ystod o strategaethau monitro ac asesu i werthuso cynnydd dysgwyr tuag at amcanion dysgu a gynlluniwyd, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu cynllunio a'u haddysgu eu hunain.

S3.2.2 Eu bod yn monitro ac yn asesu wrth iddynt addysgu, gan roi adborth unionsyth ac adeiladol i gefnogi dysgwyr fel y maent yn mynd yn eu blaenau. Eu bod yn cael dysgwyr i roi ystyriaeth i'w perfformiad eu hunain, ac i'w werthuso a'i wella.

S3.2.3 Eu bod yn gallu asesu cynnydd dysgwyr yn gywir gan ddefnyddio, yn ôl eu perthnasedd, Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen, disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, meini prawf o gymwysterau cenedlaethol, gofynion cyrff dyfarnu neu amcanion o'r canllawiau perthnasol. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.

S3.2.4 Eu bod yn adnabod dysgwyr mwy galluog a dawnus ac yn eu cefnogi, y rheini sy'n gweithio islaw disgwyliadau cysylltiedig ag oed, y rheini sy'n methu â chyflawni eu potensial mewn dysgu, a'r rheini sy'n cael anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.

S3.2.5 Eu bod, gyda chymorth athro profiadol, yn gallu adnabod lefelau cyrhaeddiad y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu dysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith, neu i ffurf iaith, eu cartref. Eu bod yn dechrau dadansoddi gofynion iaith a gweithgareddau dysgu er mwyn rhoi sialens wybyddol yn ogystal â chefnogaeth ieithyddol.

S3.2.6 Eu bod yn cofnodi cynnydd a llwyddiannau disgyblion yn systematig, er mwyn darparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros amser. Eu bod yn defnyddio hyn i gynorthwyo dysgwyr i adolygu eu cynnydd eu hunain ac i oleuo cynllunio.

S3.2.7 Eu bod yn gallu defnyddio cofnodion fel sail i adrodd ar gyraeddiadau a chynnydd dysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gryno, yn wybodus ac yn gywir i rieni, gofalwyr, proffesiynolion eraill a dysgwyr.

S3.3 Addysgu a rheoli dosbarth

I ennill SAC, rhaid i hyfforddeion ddangos y cyfan o'r canlynol:

S3.3.1 Fod ganddynt ddisgwyliadau uchel oddi wrth ddysgwyr a'u bod yn meithrin perthynas lwyddiannus, gydag addysgu a dysgu yn ganolog iddi. Eu bod yn sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus.

S3.3.2 Eu bod yn gallu addysgu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol neu'n ddisgwyliedig mewn perthynas â'r cwricwlwm i ddysgwyr yn yr ystod oed y maent wedi'u hyfforddi i'w addysgu ac fel y maent yn berthnasol i'r ystod oedran y cawsant eu hyfforddi i'w addysgu gan wneud defnydd priodol o'r Cwricwlwm Cymreig i ddysgwyr 7 – 14 oed, a Chymru, Ewrop a'r Byd i ddysgwyr 14 – 19 oed. O ran cyfnodau penodol:

- (a) fod y rheini sy'n cymhwyso i ddysgu plant Cyfnod Sylfaen yn addysgu â medruswydd ac yn annibynnol y saith maes o addysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac a gwmpesir yn y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru*;
- (b) fod y rheini sy'n cymhwyso i addysgu dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 yn addysgu'r pynciau craidd – mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg, ac, i'r rheini sydd ar gwrs HCA a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg, Cymraeg (fel iaith gyntaf) – gyda medruswydd ac yn annibynnol. Eu bod hefyd yn addysgu ystod o waith ar draws y pynciau canlynol:
- hanes
 - daearyddiaeth
 - technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
 - celf a dylunio
 - dylunio a thechnoleg
 - cerddoriaeth
 - addysg gorfforol
 - Cymraeg fel ail iaith

yn annibynnol, gyda chyingor gan gydweithiwr profiadol pan fo hynny'n briodol.

Rhaid i bob un sy'n cymhwyso i addysgu pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 allu defnyddio'r sgiliau a'r dysgu a gwmpesir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn eu haddysgu, yn ôl y priodoldeb;

- (c) fod y rheini sy'n cymhwyso i addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn addysgu eu pwnc/pynciau arbenigol gyda medruswydd ac yn annibynnol gan ddefnyddio rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a'r canllawiau perthnasol. Fod y rheini sy'n cymhwyso i addysgu'r pynciau craidd neu TGCh yng Nghyfnod Allweddol 3 yn defnyddio'r fframweithiau, y dulliau a'r disgwyliadau perthnasol a osodir yn y canllawiau *Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3*. Rhaid i bob un sy'n cymhwyso i addysgu pwnc yng Nghyfnod Allweddol 3 allu defnyddio'r sgiliau a'r dysgu a gwmpesir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn eu haddysgu, yn ôl y priodoldeb i'w pwnc arbenigol;

(ch) fod y rheini sy'n cymhwyso i addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a dysgwyr ôl-16 yn addysgu eu pwnc/pynciau arbenigol gyda medrusrwydd ac yn annibynnol gan ddefnyddio, yn ôl eu priodoldeb i'r pwnc a'r ystod oed, rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chynlluniau gwaith cysylltiedig, neu raglenni penodol ar gyfer cymwysterau cenedlaethol (gallai hyn gynnwys dysgu cysylltiedig â gwaith). Eu bod hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau a'r dysgu a gwmpesir yn y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn eu haddysgu, yn ôl y priodoldeb i'w pwnc arbenigol.

S3.3.3 Eu bod yn addysgu gwersi neu ddilyniannau o waith wedi'u strwythuro'n glir sy'n ddiddorol i ddysgwyr ac yn eu hannog, ac sydd:

- (a) yn gwneud amcanion dysgu yn glir i ddysgwyr;
- (b) yn defnyddio dulliau addysgu rhyngweithiol a gwaith grŵp cydweithredol; ac
- (c) yn hybu dysgu gweithredol ac annibynnol sy'n galluogi dysgwyr i feddwl drostynt eu hunain, ac i gynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain.

S3.3.4 Eu bod yn addasu eu haddysgu er mwyn bodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai mwyaf galluog a dawnus, a'r rheini ag anghenion addysgol arbennig. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.

S3.3.5 Eu bod yn gallu cefnogi'r rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu dysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith, neu i ffurf iaith, eu cartref, gyda chymorth athro profiadol pan fo hynny'n briodol.

S3.3.6 Eu bod yn rhoi ystyriaeth i amrywiol ddiddordebau, profiadau a llwyddiannau pob un y maent yn eu haddysgu er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ddod yn eu blaenau'n dda.

S3.3.7 Eu bod yn trefnu ac yn rheoli amser addysgu a dysgu yn effeithiol.

S3.3.8 Eu bod yn trefnu ac yn rheoli y man addysgu ffisegol, yr offer, y deunyddiau, y testunau a'r adnoddau eraill yn ddiogel ac yn effeithiol, gyda help staff cymorth pan fo hynny'n briodol.

S3.3.9 Eu bod yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad dysgwyr ac yn sefydlu fframwaith glir ar gyfer disgyblaeth yr ystafell ddosbarth er mwyn rhagweld a rheoli ymddygiad dysgwyr yn adeiladol, ac i hybu hunanreolaeth ac annibyniaeth.

S3.3.10 Eu bod yn defnyddio TGCh yn effeithiol yn eu haddysgu.

S3.3.11 Eu bod yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros addysgu dosbarth neu ddosbarthiadau dros gyfnod parhaus a sylweddol o amser. Eu bod yn gallu addysgu ar draws yr ystod oed yr hyfforddwyd hwy ar ei gyfer.

S3.3.12 Eu bod yn gallu darparu gwaith cartref a gwaith arall y tu allan i'r dosbarth sy'n cadarnhau ac yn ymestyn gwaith a wnaed yn y dosbarth ac sy'n annog dysgwyr i ddod yn eu blaenau yn annibynnol.

S3.3.13 Eu bod yn cydweithio ag athrawon arbenigol a chydweithwyr eraill ac, gyda chymorth athro profiadol pan fo hynny'n briodol, yn rheoli gwaith cynorthwywyr addysgu neu oedolion eraill er mwyn ychwanegu at ddysg y rheini y maent yn eu haddysgu.

S3.3.14 Eu bod yn adnabod ac yn ymateb yn effeithiol i faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal pan fyddant yn codi yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys trwy herio safbwyntiau ystrydebol, a thrwy herio bwlio neu aflonyddu, ddilyn y polisiau a gweithdrefnau perthnasol.

S3.3.15 Eu bod yn cymryd cyfleoedd priodol i addysgu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ym mhob agwedd berthnasol o'u haddysgu.